**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**

Cofnodion o gyfarfod rhithwir y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd Dydd Iau, 12 Awst 2021 am 3.00 pm

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Cynllunio a Datblygu Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cynghorydd S Rees (Cadeirydd)

Y Cynghorydd G Caple
Y Cynghorydd J Bonetto
Y Cynghorydd P Jarman
Y Cynghorydd J Williams
Y Cynghorydd W Lewis
Y Cynghorydd D Williams
Y Cynghorydd S Powderhill

## Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C Jones, Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi
Mr S Humphreys, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr A Rees, Uwch Beiriannydd

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol

Y Cynghorydd M Adams
Y Cynghorydd J Elliott

**26 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Daeth ymddiheuriadau am absenoldeb gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol G Hughes, D Grehan a W Owen.

**27 DATGAN BUDDIANT**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant canlynol eu gwneud:-

1) Roedd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol P Jarman wedi datgan buddiant mewn perthynas â chais 20 1182: Datblygu pum annedd ar wahân (Cymeradwyo'r materion wedi'u cadw'n ôl yn unol â rhoi caniatâd amlinellol ar 14/1308/13, fel yr estynnwyd gyda 19/0334/15) (Derbyniwyd Cynlluniau Diwygiedig ar 23/03/2021). HEN SAFLE LLYFRGELL CWM-BACH, RHES MORGAN, CWM-BACH, ABERDÂR
“Rydw i'n adnabod yr ymgeisydd, ac yntau'n trigolyn lleol, ac mae'r ymgeisydd wedi cysylltu â fi ynghylch dyddiad/amser yr ymweliad â'r safle."
2) Dywedodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S Rees ei bod hi'n bosibl y bydd angen iddi ddatgan buddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu mewn perthynas â chais 21/0665/10: Dwy uned gofal preswyl gyda phedair fflat dwy ystafell wely hunangynhwysol ymhob uned. Adeilad ar wahân i'w ddefnyddio fel swyddfa a golchdy. Tir ger 74 Stryd Corbett, Treherbert, Treorci, CF42 5ET

Roedd y Cynghorydd yn meddwl ei bod hi'n adnabod y siaradwr cyhoeddus sy'n siarad ar ran yr ymgeisydd o'i swydd flaenorol ond ni fyddai modd iddi gadarnhau nes ei bod hi'n gweld y siaradwr.

**28 DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU**

**PENDERFYNWYD** nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu materion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

**29 DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU’R DYFODOL (CYMRU) 2015**

**PENDERFYNWYD** nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

**30 Cofnodion**

**PENDERFYNWYD** cadarnhau'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 20 Mai 2021 yn rhai cywir.

**31 NEWID I DREFN YR AGENDA**

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r agenda yn cael ei ystyried mewn trefn wahanol yn unol â'r manylion yn y cofnodion isod.

**32 CAIS RHIF: 21/0023/10**

**Dec uchel yn yr ardd gefn (Derbyniwyd Cynllun Lleoliad y Safle Diwygiedig a Chynllun Bloc 30/06/21) 6 Bryn y Rhosyn Coch, Pentre, CF41 7PU**

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor y siaradwyr cyhoeddus canlynol a gafodd bum munud yr un i annerch yr Aelodau ynglŷn â'r cynnig uchod:

- Mrs C Wall - Ymgeisydd
- Mr S Wall - Ymgeisydd

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Datblygu a Buddsoddi Sylweddol y cais uchod i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu.

(**Nodyn:** Ymatalodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S Powderhill o'r bleidlais gan nad oedd e'n bresennol ar gyfer y ddadl gyfan.)

**33 CAIS RHIF: 21/0665/10**

**Dec uchel yn yr ardd gefn (Derbyniwyd Cynllun Lleoliad y Safle Diwygiedig a Chynllun Bloc 30/06/21) 6 Bryn y Rhosyn Coch, Pentre, CF41 7PU**

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor y siaradwyr cyhoeddus canlynol a gafodd bum munud yr un i annerch yr Aelodau ynglŷn â'r cynnig uchod:

- Mrs C Wall - Ymgeisydd
- Mr S Wall - Ymgeisydd

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Datblygu a Buddsoddi Sylweddol y cais uchod i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu.

(**Nodyn:** Ymatalodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S Powderhill o'r bleidlais gan nad oedd e'n bresennol ar gyfer y ddadl gyfan.)

**34 CAIS RHIF: 20/0882**

**Cais amlinellol ar gyfer 3 annedd preswyl a ffordd fynediad (pob mater wedi'i gadw (derbyniwyd Cynlluniau Ychwanegol 16/11/2020 a 17/12/2020) (derbyniwyd yr Arolwg Ecoleg 18/06/21) Sunnyside, Ffordd Hirwaun, Pen-y-waun, Aberdâr, CF44 9LL**

Cyflwynodd y Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi'r cais gan siarad am y newid i'r ffordd y mae Amod 1 wedi'i ysgrifennu:

1. (a) Rhaid i fanylion y cynllun, mynedfa, graddfa, ymddangosiad a thirlunio (a elwir yn "materion wedi'u cadw'n ôl" o hyn ymlaen) gael eu cyflwyno'n ysgrifenedig a'u cymeradwyo gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol cyn i unrhyw waith datblygu ddechrau a rhaid i'r datblygiad gael ei gwblhau fel y'i cymeradwywyd.

   (b) Rhaid i unrhyw geisiadau am gymeradwyo'r materion wedi'u cadw'n ôl gael eu cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol heb fod yn hwyrach na 3 blynedd o ddyddiad y caniatâd hwn.

   (c) Bydd y datblygiad sy'n cael ei ganiatáu drwy hyn yn dechrau cyn diwedd pum mlynedd o ddyddiad y caniatâd cynllunio yma neu cyn pen dwy flynedd o ddyddiad cymeradwyo'r materion wedi'u cadw'n ôl, p'un bynnag yw'r hwyraf.

   Rhesymau:Cydymffurfio ag Adrannau 92 a 93 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNODD** y Pwyllgor gymeradwyo'r cais yn unol ag argymhellion y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, yn amodol ar ychwanegu'r Amodau sydd wedi'u hamlinellu uchod.

35 **CAIS RHIF: 21/0613**

**Newid defnydd o siop nwyddau'r fyddin (A1) i siop gwrw a bar coctel (A3) gyda drws ffrynt â rholer. 12 Stryd y Farchnad, Pontypridd CF37 2ST**

Nododd y Pwyllgor nad oedd Mr C Rees (Ymgeisydd) a oedd wedi gofyn i annerch yr Aelodau ar y cais yn bresennol i wneud hynny.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Datblygu a Buddsoddi Sylweddol y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cynnig, **PENDERFYNWYD** gohirio'r cais er mwyn i'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu gynnal Archwiliad o'r Safle i ystyried effaith cerddoriaeth o'r safle ar yr ardal gyfagos.

36 **CAIS RHIF: 21/0760/15**

**Amrywio Amod 1 - terfyn amser (16/0391/13) Tir i'r de o 186 Heol y Dwyrain, Tylorstown, Glynrhedynog, CF43 3BY**

Siaradodd yr Aelod Lleol, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Adams, nad yw'n Aelod o'r Pwyllgor, am y cais gan fynegi ei bryderon ynghylch orddatblygu ar y safle, nododd ei fod e ddim yn gwrthwynebu'r cais, er gwaetha'i bryderon.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Datblygu a Buddsoddi Sylweddol y cais uchod i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu.

37 **CAIS RHIF: 21/0974/10**

**Estyniad deulawr yn y cefn. 236 Heol Brithweunydd, Trealaw, Tonypandy CF40 2PB.**

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Datblygu a Buddsoddi Sylweddol y cais uchod i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu.

38 **CAIS RHIF: 20 1182**

**Datblygu pum annedd ar wahân (Cymeradwyo'r materion wedi'u cadw'n ôl yn unol â rhoi caniatâd amlinellol ar 14/1308/13, fel yr estynnwyd gyda 19/0334/15) (Derbyniwyd Cynlluniau Diwygiedig ar 23/03/2021). HEN SAFLE LLYFRGELL CWM-BACH, RHES MORGAN, CWM-BACH, ABERDÂR**

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNODD** y Pwyllgor gohirio'r penderfyniad mewn perthynas â'r cais i gyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu yn y dyfodol, er mwyn sicrhau bod gan yr aelodau o'r cyhoedd gyfle i fynychu'r cyfarfod a rhannu'u barn â'r Pwyllgor.

39 **CAIS RHIF: 20/0843/10**

**Annedd arfaethedig. Tir rhwng Clwb Rygbi Wattstown a 25 Teras Dan-y-graig, Ynys-hir**

Amlinellodd y Pennaeth Materion Datblygu a Buddsoddi Sylweddol gynnwys

llythyr hwyr a dderbyniwyd, oedd o blaid y cais.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Datblygu a Buddsoddi Sylweddol y cais, a gafodd ei gyflwyno'n wreiddiol i'r Pwyllgor ar 3 Rhagfyr 2020, ac roedd yr Aelodau o blaid cymeradwyo'r cais yn groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Cynllunio (Cofnod 47).

O ganlyniad i hyn, penderfynwyd gohirio'r penderfyniad ar y cais er mwyn derbyn adroddiad pellach i dynnu sylw at gryfderau a gwendidau posibl gwneud penderfyniad sy'n mynd yn groes i argymhelliad y swyddog. Felly cafodd y cais ei gyflwyno i gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu eto ar 5 Tachwedd 2020.

Yn y cyfarfod hwnnw penderfynodd yr Aelodau ohirio'r cais er mwyn derbyn adroddiad pellach a fydd yn rhoi cyngor ar sefydlogrwydd y safle a'r domen yn y cefn, yn ogystal â goblygiadau'r cwrs dŵr cyfagos sydd i'w gweld yn y ffotograffau o'r safle a gyflwynwyd i'r Aelodau yn ystod y cyfarfod Pwyllgor.

Trafododd yr Aelodau yr adroddiad pellach, a oedd yn tynnu sylw at y cryfderau a'r gwendidau posibl o ran cymeradwyo cais yn groes i argymhelliad swyddogion, ac yn dilyn trafodaeth, roedd gan yr Aelodau bryderon ynghylch sefydlogrwydd y tir y tu cefn i'r safle a diogelwch yr ymgeisydd a'r cyhoedd, **PENDERFYNWYD** gwrthod y cais am y rheswm canlynol:

- Nid yw'r cais yn profi y bydd y llethr y tu cefn i'r safle'n dderbyniol o ran sefydlogrwydd. O ganlyniad i hynny, byddai'r datblygiad yma'n peri risg i ddiogelwch y cyhoedd ac yn mynd yn groes i Bolisi AW 10 Cynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf.

## 40 GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG

**PENDERFYNODD** yr Aelodau dderbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio mewn perthynas â'r Penderfyniadau Apeliadau Cynllunio a Gorfodi a ddaeth i law, Cymeradwyaethau Penderfyniadau a Gwrthodiadau Dirprwyedig gyda rhesymau, Trosolwg o Achosion Gorfodi a Phenderfyniadau Gorfodi Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod 12/07/2021 – 30/07/2021.

**Daeth y cyfarfod i ben am 4.35 pm**

**Y Cynghorydd S Rees**
**Cadeirydd.**